

Presennol

Y Cyngorydd HJ David – Cadeirydd

CE Smith
SE Baldwin

HM Williams

D Patel

NA Burnett

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Swyddogion:

Claire Marchant	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Janine Nightingale	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Kelly Watson	Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio
Mark Shephard	Prif Weithredwr
Andrew Rees	Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Deborah Exton	Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro
Lindsay Harvey	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Rachel Jones	Rheolwr Caffael Corfforaethol
Gaynor Thomas	Rheolwr Rhaglen Ysgolion
Mark Wilkinson	Rheolwr Grwp, Anabledd Dysgu, Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau

698. DATGANIADAU O FUDD

Dim.

699. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cabinet ar 20/07/21 fel cofnod gwir a chywir.

700. DARPARU GWASANAETH YN Y DYFODOL

Adroddodd y Prif Weithredwr ar waith y Cyngor hyd yma a chynlluniau ar gyfer ei fodel darparu gwasanaeth yn y dyfodol wrth iddo wella o bandemig Covid-19.

Adroddodd y Prif Weithredwr fod y pandemig wedi cyflwyno'r her fwyaf i wasanaethau cyhoeddus lleol mewn cenhedlaeth ac wedi arwain at newidiadau cyflym a sylweddol i'r ffordd y mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn darparu gwasanaethau. Er mis Mawrth 2020, ffocws y Cyngor oedd cadw bywyd, lleihau lledaeniad y firws a chefnogi ei holl gymunedau. Diolchodd i'r staff am eu dewrder, ystwythder, ymrwymiad a'u parodrwydd i ddarparu gwasanaethau i'w cymunedau. Bu buddsoddiad sylweddol a chyflwynwyd offer TGCh a DSE ychwanegol i staff a gwnaed buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith TGCh craidd i gefnogi'r newidiadau hyn a darparu gwasanaeth gweithio gartref dibynadwy.

Hysbysodd y Prif Weithredwr y Cabinet fod y broses o ddarparu gwasanaethau wedi cael ei chynnal yn llwyddiannus gyda'r Cyngor yn ymateb yn effeithiol i'r heriau ychwanegol o ddarparu gwasanaethau newydd sy'n gysylltiedig â Covid fel tracio ac olrhain a helpu i roi'r rhaglen frechu lwyddiannus ar waith. Dywedodd fod natur ddigynsail yr heriau wedi codi risgiau a materion a nodwyd yn yr asesiad risg corfforaethol, a oedd yn cynnwys risgiau i sicrhau newid trawsnewidiol ac arbedion

ariannol cytunedig, adfer ac aildechrau gwasanaethau wrth sicrhau amgylchedd Covid-ddiogel i'r cyhoedd a staff. Materion y gweithlu sy'n ymwneud â denu, datblygu a chadw staff sydd â'r sgiliau angenrheidiol i ateb y gofynion a osodir ar y Cyngor a'i wasanaethau.

Adroddodd mai her hanfodol i'r Cyngor trwy gydol y cyfnod adfer o'r pandemig yw sut i gynllunio ar gyfer yr hyn sydd wedi gweithio'n dda dros y 18 mis diwethaf yn fwyaf effeithiol, gan fynd i'r afael â rhai o'r materion a'r pryderon a oedd wedi codi ynghylch lles staff, datblygu tîm a mynediad at rai gwasanaethau. Dywedodd fod cyfle i ddatblygu a gweithredu model gweithredu newydd ar gyfer darparu llawer o wasanaethau'r Cyngor, gan sicrhau bod y Cyngor yn 'addas at y diben' wrth symud ymlaen, gyda ffocws ar fod mor ystywyth â phosibl a chanolbwyntio ar y cwsmer cymaint â phosibl. Yn ogystal, canolbwyntiwyd ar rannau eraill o'r adferiad, gan gynnwys gweithredu argymhellion y Panel Adferiad Trawsbleidiol.

Adroddodd fod y pandemig wedi creu cyfle i drawsnewid y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu, gan adeiladu ar y gwersi a'r profiadau sy'n deillio o'r pandemig a'u rhoi ar waith, pan roedd mwy o wasanaethau'r Cyngor yn cael eu darparu o bell ac yn rhithiol, a'r cyhoedd yn cofleidio ffyrdd newydd o wneud busnes gyda'r Cyngor. Roedd bwrdd prosiect wedi'i sefydlu i yrru'r gwaith hwn yn ei flaen a chreu model gweithio ystywyth cyfunol newydd, gan fanteisio ar gyflymu trawsnewid digidol yn ystod pandemig Covid-19, sy'n ceisio cynyddu effeithlonrwydd gwasanaethau. Amlinellodd y set o egwyddorion strategol a ddatblygwyd i arwain datblygiad a gweithrediad effeithiol y rhaglen waith darparu gwasanaeth yn y dyfodol ac amlygodd y buddion posibl sy'n deillio o fodel diwygiedig o ddarparu gwasanaeth yn y dyfodol, gan gynnwys alinio'n agos ag amcanion cenedlaethol a chorfforaethol y cytunwyd arnynt, gan gydnabod y byddai'n rhaid rheoli a monitro'r rhain yn ofalus.

Hysbysodd y Cabinet y byddai angen gwneud gwaith mewn 2 gam; cyfnod dros dro, y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo ar hyn o bryd. Cyhoeddwyd Holiadur Gweithio o Bell gan Archwilio Mewnol, a'i bwrpas oedd nodi unrhyw newidiadau a wnaed i drefniadau rheoli neu lywodraethu o ganlyniad i'r cynnydd mewn gweithio o bell oherwydd Covid-19. Yn dilyn dadansoddiad o'r ymatebion, daeth yr Archwiliad Mewnol i'r casgliad yn ei adroddiad bod effeithiolrwydd yr amgylchedd rheolaeth fewnol yn rhesymol ac ni wnaed unrhyw argymhellion penodol. Roedd staff, ar ôl cwblhau arolwg ar y model dosbarthu o bell, yn croesawu model hybrid neu o bell. Dywedodd fod cael gwasanaeth TGCh ag adnoddau digonol yn cael ei ystyried yn hollbwysig ac roedd rheolwyr yn awyddus i archwilio datrysiadau digidol pellach i'w cyflwyno, i sbarduno nod y Cyngor o ddod yn Gyngor Digidol erbyn 2024, gan gynnwys opsiynau ar gyfer rheoli cyfarfodydd aelodau yn y dyfodol. Y nod tymor hir, ar yr amod y gellir dod o hyd i atebion TG addas i'w ganiatáu, (prosesau pleidleisio ac ati) fyddai i aelodau etholedig gael y dewis a ydynt yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor yn bersonol neu o bell.

Adroddodd fod cyfle i ddatblygu model gweithredu tymor hir ar gyfer y Cyngor a oedd yn cofleidio llawer o'r buddion a oedd wedi dod i'r amlwg o'r ffordd y mae'r Cyngor wedi gorfod gweithredu dros y 18 mis diwethaf yn ystod y pandemig, tra hefyd yn mynd i'r afael â rhai o'r pryderon y mae staff a'r cyhoedd wedi'u mynegi ynghylch materion lles, cyfleoedd i gwrdd yn bersonol lle bo hynny'n briodol, a gwella gwasanaethau digidol ymhellach i foderneiddio gwasanaethau tra hefyd yn sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei eithrio. Dywedodd fod y rhaglen waith yn cynrychioli un o'r heriau gweithredol mwyaf sylweddol y mae'r Cyngor hwn wedi'i hwynebu ac y byddai angen iddi gael adnoddau priodol, ei chyfathrebu'n effeithiol a'i rhoi ar waith yn fedrus i sicrhau ei llwyddiant.

Gwnaeth Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar sylwadau ar yr ymgysylltiad hynod gadarnhaol â staff a bod gweithio gartref bellach yn rhoi hyblygrwydd i ystyried amgylchiadau staff. Dywedodd y byddai angen edrych yn

gyfannol ar yr effaith ar y gymuned ehangach fel darparu gofal plant a meithrinfa. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai angen ystyried darpariaeth o'r fath yn y tymor hwy a bod angen ystyried cyrchu gwasanaethau'n lleol.

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau i staff am y ffordd yr oeddent yn addasu i weithio mewn ffordd ystwyth ac roedd o'r farn y gellid datblygu cyfleoedd i staff weithio'n lleol mewn hybiau i'w gwneud hi'n haws cyrchu darpariaeth gofal plant, tra hefyd yn cyfrannu at yr agenda datgarboneiddio. Adleisiodd yr Arweinydd y gwerthfawrogiad i staff a bod ymgysylltu â staff ac undebau llafur yn hanfodol i lwyddiant y model darparu gwasanaeth yn y dyfodol, wrth gadw iechyd a diogelwch a chynngor Llywodraeth Cymru yn flaenllaw.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cabinet yn:

- i.) nodi'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed o ran model gweithredu newydd i'r Cyngor, a

dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr i ddatblygu opsiynau ar gyfer model gweithredu tymor hirach y Cyngor a darparu adroddiad pellach i'w gymeradwyo gan y Cabinet maes o law.

701. **DIWEDDARIAD I STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2022-23 I 2025-26**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro ddiweddariad ar ddatblygiad y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2022-23 i 2025-26, yn dilyn yr adolygiad o ragdybiaethau mewnol, a chafodd gwybodaeth gyfredol a dderbyniwyd ers Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2021-22 i 2024-25 ei chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Chwefror 2021.

Adroddodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro fod y Strategaeth Ariannol Terfynol Ganolig a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 24 Chwefror 2021 wedi nodi bwlch posibl o £22m dros y cyfnod 2021-22 - 2024-25, a bod angen arbedion o £1.76 miliwn yn 2021-22 ac amlinellodd amcangyfrif o arbedion blynnyddoedd i ddod, yn seiliedig ar y senario orau, y senario fwyaf tebygol a'r senario waethaf. Dywedodd, ar yr adeg y gosodwyd y gyllideb, fod rhywfaint o ansicrwydd oherwydd codiadau cyflog a phrisiau, ynghyd ag effaith hirdymor y pandemig a Brexit. Hysbysodd y Cabinet fod y Cyngor wedi dibynnu ar gyllid grant a dderbyniwyd o gronfa caledi Llywodraeth Cymru o £24.643m i sicrhau cyllideb gytbwys. Roedd Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £206m i'r gronfa caledi i gefnogi llywodraeth leol am y 6 mis cyntaf yn 2021-22 ac wedi cadarnhau estyniad o gymorth cysylltiedig â chost i ofal cymdeithasol oedolion hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Nid oedd unrhyw gymorth ariannol pellach ar gael ar gyfer gofal cymdeithasol ar gyfer y rhai nad ydynt yn oedolion, oedd yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gyllideb.

Adroddodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro ar sefyllfa'r gyllideb ar gyfer 2021-22 sef £298,956, wedi'i ariannu o 3 ffynhonnell. Ar 30 Mehefin 2021, rhagamcaniad o £904k oedd y sefyllfa, oedd yn adlewyrchu'r pwysau ar ofal cymdeithasol oedolion. Amlinellodd y prif bwysau y mae angen eu hystyried ar gyfer strategaeth gyllideb 2022-23, sef dyfarniadau cyflog; chwyddiant prisiau a phwysau demograffig. Rhoddwyd ystyriaeth i'r gwahanol senarios o newidiadau i Gyllid Allanol Agregau a chodiadau treth gyngor a'r arbedion canlyniadol sy'n ofynnol. Ychydig iawn o gynigion lleihau cyllideb a gyflwynwyd a byddai gwaith yn parhau gyda'r Panel Ymchwilio a Gwerthuso Cyllideb i ddod â chynigion lleihau cyllideb ynghyd i'w hystyried ac ymgynghori arnynt dros weddill y flwyddyn ariannol.

Hysbysodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro fod Archwilio Cymru wedi cwblhau adroddiad ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor a daeth i'r casgliad bod y Cyngor wedi cynnal sefyllfa ariannol gref yn ystod y pandemig ac nad oes unrhyw risgiau ymddangosiadol i gynaliadwyedd ariannol y Cyngor. Fodd bynnag, roedd

Archwilio Cymru wedi cyngori bod yr effaith uniongyrchol ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor yn cael ei lliniaru gan gyllid Llywodraeth Cymru, ac er bod gan y Cyngor hanes o gyflawni mwyafrif ei arbedion cynlluniedig yn ystod y flwyddyn, fel Cyngorau eraill, byddai nodi a chyflawni arbedion yn y dyfodol yn fwy heriol. Nododd Archwiliad Cymru hefyd fod Cyngorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw sy'n arwain at ostyngiadau mewn gweddillion cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu gwytnwch i ariannu pwysau cyllidebol annisgwyl yn y blynyddoedd i ddod.

Adroddodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro ar yr ymgynghoriad cyllideb a fydd yn cychwyn ar 20 Medi 2021, gan ddod i ben ar 14 Tachwedd 2021. Adroddodd hefyd ar y rhaglen gyfalaf, sy'n rhaglen 10 mlynedd ac yn cael ei diweddarau a'i hadolygu a'i hadrodd wrth y Cyngor bob chwarter. Byddai'r Cyngor yn parhau i geisio sicrhau cyllid grant allanol ar gyfer cynlluniau lle bo hynny'n bosibl, er mwyn lleihau'r effaith ar gyllidebau mewnol. Amlinellodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro yr amserlen gyllidebol debygol, gan ddechrau ym mis Medi 2021, gan ddod i ben ym mis Mawrth 2022.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau fod camddealltwriaeth mewn perthynas â lefel cronfeydd wrth gefn y Cyngor, yn yr ystyr nad yw ei gronfeydd wrth gefn anghyfyngedig yn uchel. Hefyd, mae arbedion i gyllideb y Cyngor mewn gwirionedd yn doriadau cyllideb oherwydd mesurau cyni. Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro fod lefel y cronfeydd wrth gefn yn 9% ac na fyddai ond yn galluogi'r Cyngor i redeg am ychydig ddyddiau pe bai argyfwng. Dywedodd fod cronfeydd wrth gefn clustnodedig y Cyngor o £29m ar gyfer cynlluniau yn y rhaglen gyfalaf. Dywedodd hefyd fod lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn isel a bod rhai Cyngorau yn casglu eu cyllidebau refeniw gan ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn cael eu blaenoriaethu i'w defnyddio i gefnogi'r rhaglen foderneiddio ysgolion a bod rhai yn benodol i grantiau. Dywedodd ei bod yn anarferol derbyn adroddiad canol tymor ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, ond roedd cyllid caledi Llywodraeth Cymru wedi bod yn hanfodol i gadw'r Cyngor i fynd a bod heriau ac ansicrwydd sylweddol o hyd ynghylch Covid o'i flaen.

Dywedodd yr Arweinydd fod y pwysau a'r galw ar wasanaethau'n uwch nag erioed, heb unrhyw sicrwydd faint o'r cyfraniadau ychwanegol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a fyddai'n dod i Gymru. Byddai'r polisi hwn yn dod â phwysau pellach ar y Cyngor fel cyflogwr i orfod ariannu cyfraniadau Yswiriant Gwladol uwch.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet wedi nodi'r adroddiad ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2022-23 i 2025-26 wedi'i diweddarau.

702. **DARPARIAETH GWASANAETH CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU YM MWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

Adroddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ar ddiweddariad o'r gwaith i drosglwyddo gwasanaethau camddefnyddio sylweddau o hen Fwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorrlewin i Fwrdd Cynllunio Ardal Cwm Taf Morgannwg.

Hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y Cabinet fod Byrddau Cynllunio Ardal (BCA) wedi'u sefydlu gan Lywodraeth Cymru yn 2010 i ddarparu fframwaith rhanbarthol i gryfhau gweithio mewn partneriaeth ac arweinyddiaeth strategol wrth gyflawni'r strategaeth camddefnyddio sylweddau; cyfoethogi a gwella swyddogaethau allweddol cynllunio, comisiynu a rheoli perfformiad. Bwrdd aml-asiantaeth yw BCA Cwm Taf Morgannwg, sy'n atebol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â'i holl weithgareddau. Dywedodd fod y rhan fwyaf o wasanaethau camddefnyddio sylweddau yn cael eu hariannu trwy ddwy ffrwd ariannu

Llywodraeth Cymru, y Gronfa Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau: £4M a dyraniad camddefnyddio sylweddau wedi'i glustnodi gan y Bwrdd Iechyd Lleol: £3.5M, gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn fanciwr enwebedig, sydd hefyd yn cyflogi tîm comisiynu bach i ymgysylltu â phartneriaid i gydlynu swyddogaethau gofynnol y BCA. Rheolir y tîm gan Brif Swyddog Camddefnyddio Sylweddau.

Adroddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, fel rhan o broses foderneiddio i ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth ac angen defnyddwyr gwasanaeth, bod BCA Cwm Taf wedi comisiynu ymgynghorwyr, Ymchwil Iechyd a Chymdeithasol, i gynnal adolygiad o ddarpariaeth gwasanaeth camddefnyddio sylweddau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, ac i ddatblygu model gwasanaeth. Dechreuodd y gwasanaeth integredig newydd ar 1 Ebrill 2019. Yn dilyn newid ffiniau'r bwrdd iechyd ym mis Ebrill 2019, gofynnwyd i Ymchwil Iechyd a Chymdeithasol gynnal asesiad o anghenion yn benodol ar gyfer ardal Pen-y-bont ar Ogwr.

Adroddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y bydd gwasanaethau Haen 3 yn cael eu comisiynu a'u darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Bydd gwasanaethau triniaeth a chymorth Haen 1 a 2 yn cael eu hail-gomisiynu a gwasanaeth integredig newydd gydag un darparwr yn cael ei benodi. Dechreuwyd datblygu'r broses gaffael ym mis Mawrth 2021, a rhagwelir y bydd y tendr yn cael ei gyhoeddi ar 1 Hydref 2021, a bydd y gwasanaeth newydd yn cychwyn ar 1 Ebrill 2022. Byddai contract yn cael ei ddyfarnu am ddwy flynedd gydag opsiwn i ymestyn am gyfnod pellach o flwyddyn a blwyddyn arall i gyd-fynd â contract Cwm Taf. Bydd Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yn parhau fel banciwr enwebedig a derbynnydd grantiau a chyflogwr y tîm comisiynu rhanbarthol ar gyfer y BCA, a bydd yn ymgymryd â'r broses gaffael trwy'r tîm comisiynu rhanbarthol. Byddai cytundeb cydweithredu yn cael ei drafod a'i gytuno rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i lywodraethu eu priodolau a'u cyfrifoldebau yn ystod y broses gaffael a nodi sut y bydd y partiön yn cydweithredu i oruchwylio'r broses o ddarparu'r gwasanaeth. Amlinellodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles gydrannau'r gwasanaeth newydd, a fyddai'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl a darparu dull cyson o ddarparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Nododd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar, wrth ganmol yr adroddiad, ar yr amod bod gwasanaethau triniaeth Haen 1 a 2 yn cael eu rhoi ar waith, y byddai hyn yn lleihau'r galw ar Haenau 3 a 4. Dywedodd y bydd y gwasanaethau'n darparu cefnogaeth hanfodol i deuluoedd fel bod canlyniadau gwell yn cael eu cyflawni.

Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Gymunedau a welwyd gwahaniaeth i ddarpariaeth gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ers i ffin y bwrdd iechyd newid. Dywedodd y Rheolwr Grŵp Anabledd Dysgu, Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau fod y newid ffin i Gwm Taf wedi gweld trefniant cadarnhaol, ond o'r blaen, roedd diffyg strwythur i'r BCA. Gwnaeth sylwadau ar effeithiolrwydd y tîm rhanbarthol yn RhCT, a oedd wedi'i drefnu'n dda.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol yn falch o weld y cydweithio gyda phartneriaid a gofynnodd am adroddiad pellach unwaith y bydd pethau wedi ymsefydlu, er mwyn gweld sut mae gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn gwella.

Dywedodd yr Arweinydd fod camddefnyddio sylweddau yn cyfrannu at ddigartrefedd a'i bod yn bwysig canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r broblem iechyd hon. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod y

gwasanaeth yn gweld pob math o gyflwyniadau ers y pandemig a gwnaeth sylwadau ar bwysigrwydd ymyrraeth a chefnogaeth gynnar.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Rheolwr Grŵp Anabledd Dysgu, Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau a'i dîm sydd wedi parhau i ddarparu gwasanaethau mor werthfawr i'r gymuned yn ystod y pandemig.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:

- nodi'r gwaith sydd wedi'i wneud i drosglwyddo gwasanaethau camddefnyddio sylweddau o hen BCA Bae'r Gorllewin i BCA Cwm Taf Morgannwg;
- cymeradwyo Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT i gynnal yr ymarfer caffael i gomisiynu'r darparwr gwasanaeth integredig ar gyfer darpariaeth gwasanaeth camddefnyddio sylweddau Haen 1 a 2 ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn unol â rheol 3.1.5 o Reolau Gweithdrefn Contract y Cyngor, gyda chymeradwyaeth i ddyfarnu'r contract gwasanaeth trwy bwerau dirprwyedig (o dan Gynllun Dirprwyo BCBC) unwaith y bydd y broses gaffael a gwerthuso wedi'i chynnal; a
- cymeradwyo Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ymrwymo i gytundeb cydweithredu rhanbarthol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol RhCT i nodi cyfrifoldebau pob Awdurdod Lleol am y broses gaffael gychwynol a rheoli contract y contract gwasanaeth.
- dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid Dros Dro ac Adran 151 y Swyddog a'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio, i gytuno ar delerau'r cytundeb cydweithredu rhanbarthol ac unrhyw ddogfennau ac ymrwymo iddo neu weithredoedd ategol i'r cytundeb hwnnw.

gofyn i adroddiad pellach gael ei gyflwyno i'r Cabinet unwaith y bydd y gwasanaethau newydd a'r darparwr newydd ar waith ac adrodd ar lwyddiant y gwasanaethau hynny.

703. RHOI'R RHAGLEN TRAWSNEWID TREFI (TT) AR WAITH 2021-2022

Adroddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau ar ddiweddariad ar y rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio gynt a cheisiodd gymeradwyaeth i symud ymlaen ar raglen olynedd TBA - Trawsnewid Trefi (TT) ym Mwrdeistref y Sir. Hysbysodd y Cabinet bod, hyd yma, cyllid o £2.7m wedi'i sicrhau trwy'r rhaglen TBA i gefnogi prosiectau adfywio a bod Swyddogion yn gweithio gyda thirfeddianwyr / lesddeiliaid gyda'r nod o gefnogi prosiectau trwy'r rhaglen TT, a fydd yn rhedeg tan fis Medi 2022, gyda'r posibilrwydd o estyniad.

Adroddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau fod y Cyngor wedi llwyddo i sicrhau £910k o'r rhaglen TT ar gyfer caffael a dymchwel safle gorsaf yr heddlu yn Cheapside, gyda Swyddogion yn gweithio mewn partneriaeth â'r Heddlu a Choleg Pen-y-bont ar Ogwr i symud ymlaen â'r cynigion ar gyfer y safle. .

Adroddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau hefyd y bydd y Cyngor yn parhau i gyflawni'r prosiectau thematig er mwyn parhau i gefnogi piblinellau prosiectau a ddatblygwyd trwy gynllun TBA Thematig 2018-21 y mae angen eu cwblhau, gan gydnabod ar yr un pryd y gweithgaredd cymwys ychwanegol a gynhwysir yn Grant Gwneud Lle TT 2021-22. Dywedodd y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon

Taf yn gweithredu fel y prif gorff ac y bydd yn adrodd i Lywodraeth Cymru a Bwrdd Adfywio Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru, a fydd yn cynnwys Bwrdd Adfywio Rhanbarth Prifddinas Caerdydd. Byddai'r grant Gwneud Lle wedi'i anelu at ganol trefi Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg a Phorthcawl.

Adroddodd hefyd fod y Cyngor wedi llwyddo i sicrhau £1,166,000 i'w rannu ag Awdurdodau Lleol eraill y De-ddwyrain yn 2021-22 i wireddu prosiectau o dan Brosiectau Yn y Cyfamser; Digwyddiadau a Marchnata a Chefnogaeth Ddigidol o fewn Canol Trefi. Amlinellodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y risgiau a'r materion sy'n gysylltiedig â pharhau â'r rhaglen.

Nododd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, wrth ganmol y cynigion, fod angen rhoi cyhoeddusrwydd i'r cyflawniadau adfywio ar Stryd Nolton. Dywedodd y bydd y cynigion yn Cheapside yn gweld addysg ac adfywio yn cwrdd ac yn codi o Uwchgynllun Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar y bydd y prosiectau'n gwneud gwahaniaeth i ganol y trefi a bydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid gysylltu i alluogi prosiectau adfywio i ddigwydd. Gofynnodd beth ellir ei wneud i sicrhau bod landlordiaid yn cysylltu. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y Cabinet fod angen i landlordiaid fod yn barod i gysylltu gan fod rhai eiddo mewn cyflwr gwael. Gall y Cyngor ddefnyddio pwerau o dan Adran 215 y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i gyflwyno rhybudd os yw'n ystyried bod cyflwr tir neu adeiladau yn niweidiol i'r ardal. Dywedodd fod cyflwyno rhybudd yn aml yn ddigonol i sicrhau bod landlordiaid yn gweithredu i wella eu heiddo. Dywedodd fod achos mewn perthynas ag eiddo a ddifrodwyd gan dân yn destun achos llys. Mae gan y Cyngor bwerau Gorchymyn Prynu Gorfodol hefyd er budd corfforaethol mwy, a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar ôl i'r holl lwybrau eraill gael eu defnyddio. Dywedodd yr Arweinydd fod y cynlluniau a gwblhawyd o dan y rhaglen TBA wedi bod yn bosibl trwy gyllid Llywodraeth Cymru a gweithio mewn partneriaeth â landlordiaid, a oedd wedi gweld eiddo'n cael ei ddefnyddio eto mewn canol trefi gyda phobl yn byw ar y lloriau uchaf ac adwerthu ar y lloriau isaf. Roedd yn edrych ymlaen at dderbyn adroddiad diweddar wrth i'r rhaglen Trawsnewid Trefi ddatblygu.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:

1. Cymeradwyo'r cynigion amlinellol ar gyfer cyflwyno TT yng nghanol trefi Pen-y-bont ar Ogwr, fel y nodir yn adran 4 yr adroddiad.
 2. Nodi a derbyn y risgiau a'r materion a amlygwyd ym mharagraff 4.7.
 3. Awdurdodi'r Prif Swyddog Cyllid i dderbyn y grant TBA ar ran yr Awdurdod.
 4. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid a'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio, i:
 1. drafod a llunio'r cytundeb lefel gwasanaeth diwygiedig gyda Rhondda Cynon Taf; a
 2. cymeradwyo unrhyw estyniad neu welliant i'r cytundeb lefel gwasanaeth ac ymrwymo i unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n ategol i gytundeb lefel gwasanaeth.
 5. Dirprwyo awdurdod i'r Rheolwr Grŵp, Adfywio, i ddyfarnu'r Grantiau Gwneud Lle TT a Busnes.
 6. Cymeradwyo penodi'r Prif Swyddog Adfywio i eistedd fel cynrychiolydd partner Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr ar grŵp gweithredol TT.
704. **NEWYDDIAD CONTRACT MENTER YMCHWIL BUSNESAU BACH**

Gofynnodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau am gymeradwyaeth i hepgor Contract Rheolau Gweithdrefn yn unol â CPR 3.2.9.4 mewn perthynas â'r contract gyda PassivSystems Limited ar gyfer Cam 2 y Fenter Ymchwil Busnesau Bach ac i ymrwymo

i Weithred Newyddiad i newyddio'r contract hwnnw o PassiSystems Limited i Passiv UK Limited.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau fod y Cabinet ym mis Chwefror 2019 wedi cymeradwyo Strategaeth Ynni Ardal Leol Pen-y-bont ar Ogwr a Chynllun Ynni Clyfar. Roedd y Cynllun Ynni Clyfar yn cynnwys sawl syniad am brosiectau i'w datblygu dros 2019 - 2025 a fydd yn darparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer datgarboneiddio Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn unol â'r Strategaeth Ynni Ardal Leol. Cyflwynodd y Cyngor gynnig i Lywodraeth Cymru trwy eu Menter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) i gynnal cystadleuaeth arloesi (dros ddau gam - Dichonoldeb ac Arddangos) i ganiatáu i arloeswyr yn y farchnad gynnig syniadau ynghylch sut y gellid datblygu rhwydweithiau gwres am gost is nag amodau cyfredol y farchnad.

Hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y Cabinet, yn dilyn cystadleuaeth yn 2019, y penodwyd 4 sefydliad i ddatblygu eu syniadau fel rhan o Gam 1 y broses SBRI. Un ohonynt oedd Passiv Systems, y dyfarnwyd y contract iddynt i gyflawni eu prosiect arddangos fel rhan o Gam 2 y SBRI ym mis Mawrth 2021. Fodd bynnag, rhoddwyd PassivSystems i ddwylo'r gweinyddwyr ym mis Ebrill 2021 ac yna cawsant eu prynu gan Passiv UK. Dywedodd, o ganlyniad i'r caffaeliad hwn, fod Passiv UK wedi gofyn i'r contract gyda PassivSystems gael ei newyddu i Passiv UK Limited.

Nododd Aelod y Cabinet dros Gymunedau, wrth ganmol y cynnig i hepgor Rheolau Gweithdrefn Contract, fod y Cyngor wedi derbyn cyllid Llywodraeth Cymru i gyflawni prosiectau arloesol, gan ddangos bod y Cyngor yn flaengar nid yn unig yng Nghymru, ond ledled y DU. Byddai'r arloesedd hwn yn cyfrannu at ddatgarboneiddio ac yn lleihau tlodi tanwydd.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol pa ddiwydrwydd dyladwy a wnaed a chan bwy pan ddyfarnwyd y contract i Passiv. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau fod Passiv wedi cael ei werthuso gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru a bod yn rhaid iddo hefyd ymrwmo i gontract ar gyfer ei brosiect arddangos. Hysbysodd y Cabinet fod y rhiant-gwmni wedyn wedi lansio cwmni newydd.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cabinet yn:

- awdurdodi hepgor Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor i ganiatáu addasu'r contract presennol gyda PassivSystems Limited mewn perthynas â Cham 2 y Fenter Ymchwil Busnesau Bach trwy gydsynio i newyddu'r contract hwnnw i Passiv UK wedi'i gyfyngu yn unol â Rheol 3.2.9.4;
- dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau i gymeradwyo telerau terfynol y Weithred Newyddiad sy'n ofynnol i adnewyddu'r contract o PassivSystems Limited i Passiv UK Limited ac ymrwmo i'r Weithred Newyddiad honno mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid, a Swyddog Adran 151, a Phrif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio ac i drefnu bod y Weithred Newyddiad yn cael ei gweithredu ar ran y Cyngor, yn amodol ar arfer y fath awdurdod dirprwyedig mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwyr Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Rheoleiddio.

705. **MODEL BUDDSODDI CYDFUDDIANNOL MODERNEIDDIO YSGOLION A THIR YM MHLAS MORLAIS**

Gofynnodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chefnogaeth i Deuluoedd am gymeradwyaeth i gyflwyno cais Cam 1 y Model Buddsoddi Cydfuddiannol i Bartneriaeth Addysg Cymru (WEPco); a bwrw ymlaen â'r trafodion tir gofynnol er mwyn hwyluso datblygiad ysgolion yn y lleoliad hwn. Hysbysodd y Cabinet y byddai hyn yn cynnwys cwblhau cytundeb opsiwn gyda'r Cymoedd i'r Arfordir (V2C) mewn perthynas â'r defnydd

a fwriadwyd ar gyfer hen Ganolfan Adnoddau Glan-yr-Afon; ynghyd â chyfarwyddo cyfreithwyr i gychwyn achos i gaffael safle Plas Morlais gan V2C; ac i baratoi dogfennau contract ar gyfer gwaredu safle Ysgol Gynradd Afon-Y-Felin i V2C am bris y cytunwyd arno yn y dyfodol.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chefnogaeth i Deuluoedd fod Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2020 wedi cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol ar gyfer dau gynllun Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr ac, ym mis Rhagfyr, derbyniwyd cymeradwyaeth y Cyngor i gynnwys cyllid yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer prynu tir ym Mhlas Morlais yn er mwyn cefnogi elfen cyfrwng Saesneg y prosiect. Yn dilyn proses ymgynghori statudol a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2021, o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion mewn perthynas â dau gynnig Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr, penderfynodd y Cabinet gymeradwyo'r ddau gynnig (i ddod ag Ysgolion Cynradd Afon-Y-Felin a Corneli i ben a sefydlu ysgol gynradd Saesneg ddwy ffrwd newydd ar safle Plas Morlais, ac ehangu Ysgol y Ferch O'r Sgêr i ddwy ffrwd, i'w lleoli ar safle Ysgol Gynradd Corneli / Ysgol y Ferch O'r Sgêr). Dywedodd, mewn perthynas â'r trafodion tir cysylltiedig, bod cymeradwyaeth wedi'i rhoi gan y Cabinet a'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2020 ar gyfer cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf y symiau sy'n ofynnol ar gyfer caffael safle Plas Morlais gan V2C yn ystod 2021-2022. Derbyniwyd cymeradwyaeth hefyd i gynnwys gwerthu safle ysgol gynradd Afon-Y-Felin i V2C a Glan-yr-Afon yn y dyfodol fel rhan o'r trafodiad tri eiddo hwn. Roedd V2C wedi cadarnhau ymrwymiad i'r trafodion hyn ac yn gweithio gyda chwmnïau i'w dwyn ymlaen.

Dywedodd fod angen cymeradwyaeth y Cabinet i gymeradwyo'n ffurfiol i symud ymlaen i gyflawni unrhyw brosiect newydd ac i ymrwymo i ddogfennaeth gyfreithiol gysylltiedig i hwyluso'r un peth, gan gynnwys Cytundeb Prosiect (Cam 1). Dywedodd fod y cynlluniau bellach ar y cam lle mae angen cyflwyno cais Cam 1 i WEPco. Ar ôl ei dderbyn bydd WEPco yn ystyried y cais ac yn penderfynu a ellir ei dderbyn fel 'prosiect newydd'. Os caiff ei dderbyn, bydd y broses datblygu dyluniad ar gyfer yr ysgolion newydd yn cychwyn.

Adroddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chefnogaeth i Deuluoedd hefyd, yn dilyn chwiliad safle helaeth ac ymarfer dichonoldeb ar gyfer yr ysgolion newydd arfaethedig yn y Gorllewin, bod tir cyfagos ym Mhlas Morlais, sy'n eiddo i V2C, wedi'i nodi ar gyfer datblygu un o'r Ysgolion newydd, gyda'r safle presennol yn cael ei rannu gan Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol y Ferch O'r Sgêr fel y llall. Dywedodd fod egwyddor y trafodiad tir yn seiliedig ar fargen 'cyfnewid' gyda V2C, lle byddai'r Cyngor yn cyfnewid safle Ysgol Gynradd Afon-Y-Felin ar gyfer safle Plas Morlais V2C, ond nid oedd modd alinio'r dilyniant a'r taliadau'n gysylltiedig â dwy elfen gan na ellir gwerthu safle Ysgol Gynradd Afon-Y-Felin nes cwblhau'r datblygiad ysgol newydd, ac mae'n rhaid caffael safle ysgol newydd cyn y datblygiad ysgol newydd.

Byddai'r Cyngor yn caffael safle Plas Morlais ymlaen llaw, cyn gwireddu'r dderbynneb cyfalaf ar gyfer safle Ysgol Gynradd Afon-Y-Felin. Dywedodd fod prisiad y ddau safle wedi'i gyfarwyddo ar y cyd gan Brisiwr y Rhanbarth sydd wedi dychwelyd gwerthoedd ar gyfer y ddau safle. Mae'r gwerthoedd yr adroddir arnynt yn dangos gwahaniaeth mewn gwerth o blaid safle Plas Morlais, gan ei fod yn cael ei brisio'n uwch ar sail maint a'r dwyseddau datblygu a ragwelir. Er mwyn rhoi cyfrif am y gwahaniaeth mewn gwerthoedd, mae'r Cabinet wedi cytuno y gallai Glan-yr-Afon, Ynysawdre gael ei hymgorffori yn y 'cyfnewid tir'. Mae Prisiwr y Rhanbarth wedi prisio'r safle hwn yn ei gyflwr presennol a daethpwyd i gytundeb gyda V2C a fydd golygu eu bod yn cymryd cytundeb opsiwn ar bris Prisiwr y Rhanbarth ar unwaith ar Glan-Yr-Afon, tra bydd y cytundeb caffael ar gyfer Plas Morlais yn dod i ben. Byddai hyn yn caniatáu i V2C gyflwyno cynlluniau ailddatblygu ar gyfer safle Glan-yr-Afon ar unwaith.

Nododd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio fod y trafodiad tir yn fater technegol iawn ond ei fod yn angenrheidiol i symud datblygiad yr ysgolion newydd yn ei flaen, sef y buddsoddiad addysg mwyaf erioed yn ardal Corneli, fydd yn darparu ysgolion yr 21^{ain} ganrif ac adfywio'r ardal. Dywedodd y byddai'r prosiect yn cael ei gyflwyno'n raddol yn y fath fodd fel na fyddai unrhyw blentyn yn cael ei effeithio gan waith adeiladu nac yn cael ei addysgu mewn ystafelloedd dosbarth dros dro, ac mai'r ysgol Saesneg fyddai'n cael ei datblygu gyntaf, yna'r ysgol Gymraeg.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau, er bod y trafodiad wedi'i ddisgrifio fel cyfnewid tir, byddai'r awdurdod yn dal i brynu'r tir i hwyluso datblygiad yr ysgolion newydd. Dywedodd yr Arweinydd y byddai gwerthoedd tir yn cael eu hasesu gan Brisiwr y Rhanbarth a'i bod yn hanfodol bod yr awdurdod yn caffael y tir i adeiladu'r ysgolion newydd gan nad oedd ganddo dir addas yn ei berchnogaeth. Hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y Cabinet fod argaeledd tir yn hanfodol i'r datblygiad wrth symud ymlaen er mwyn darparu'r ysgolion ac y byddai Prisiwr y Rhanbarth yn asesu gwerthoedd tir am brisiau y cytunwyd arnynt.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cabinet yn:

· cymeradwyo cyflwyno Cam 1 i WEPco; a

• cymeradwyo cytundeb opsiwn Glan-Yr-Afon i V2C fel rhan o'r cytundeb 'cyfnewid tir' cyffredinol ac i awdurdodi Swyddogion i symud ymlaen gyda'r contractau ar gyfer caffael y tir ym Mhlas Morlais gan V2C a gwerthu Ysgol Gynradd Afon-Y-Felin yn y dyfodol i V2C ar y gwerthoedd y cytunwyd arnynt, gan sicrhau bod y Cyngor yn cael yr ystyriaeth orau yn unol ag adran 123 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn unol â Phrotocolau Trafodion Tir.

706. MODERNEIDDIO YSGOLION - EGIN YSGOL GYMRAEG YM MHORTHCAWL

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chefnogaeth i Deuluoedd am gymeradwyaeth i gyflwyno mynegiant o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru (LIC) mewn perthynas ag ail gyfran y Grant Cyfalaf cyfrwng Cymraeg a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Hysbysodd y Cabinet fod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chefnogi uchelgais Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Dywedodd fod yr awdurdod ym mis Tachwedd 2018, wedi sicrhau £2.6m o gyllid Grant Cyfalaf LIC ar gyfer datblygu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd daearyddol strategol ym mwrdeistref y sir, er mwyn cefnogi gweledigaeth 2050. Nodwyd pedair ardal ar gyfer buddsoddiad, ac un ohonynt oedd Porthcawl ac mewn egwyddor roedd y Cabinet wedi cymeradwyo'r datblygiad ar 21 Ionawr 2020 i ddatblygu ysgol Gymraeg 1 ffrwd i wasanaethu ardal Porthcawl fel rhan o fand rhaglen foderneiddio ysgolion yn y dyfodol. Y bwriad yw y byddai'r ddarpariaeth newydd yn cyd-fynd â datblygiad cynllun Adfywio Porthcawl.

Er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a chyflawni ymrwymiad y Cabinet yn y rhan hon o'r fwrdeistref sirol, nododd yr angen am fesur dros dro ar ffurf egin ysgol Gymraeg. Hysbysodd y Cabinet, o safbwynt economaidd, y byddai'n gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o gyllid i gydleoli darpariaethau gofal plant ac egin ysgol Gymraeg ar un safle (gan y byddai'r arbedion maint cysylltiedig yn golygu y gellid gwneud arbedion sylweddol o gymharu â ddarparu darpariaethau ar wahân mewn lleoliadau gwahanol). O safbwynt logistaidd, byddai'n fuddiol i rieni/gofalwyr gan y byddai dilyniant naturiol o'r ddarpariaeth gofal plant i'r egin ysgol.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chefnogaeth i Deuluoedd fod y gost amcangyfrifedig ar gyfer darparu egin ysgol a chyfleuster gofal plant cyfun o £3.75m yn cynnwys elfen o £150k ar gyfer gwaith priffyrdd a ragwelir. Ni fyddai maint llawn y gwaith priffyrdd sy'n ofynnol ar gyfer y cynllun arfaethedig yn hysbys nes bydd Asesiad Trafnidiaeth yn cael ei gynnal ar y cam dylunio manwl. Dywedodd mai dim ond o fewn

cartilag safleoedd datblygu y mae LIC yn adeiladu ar hyn o bryd, o ganlyniad, byddai'n ofynnol i'r Cyngor ariannu unrhyw waith priffyrdd angenrheidiol sy'n disgyn y tu hwnt i ffin y safle. Hysbysodd y Cabinet y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor maes o law pan fyddai maint unrhyw gyllid cyfalaf ychwanegol a chostau refeniw ychwanegol yn hysbys.

Hysbysodd yr Arweinydd y Cabinet ei bod wedi bod yn uchelgais gan deuluoedd sy'n cefnogi addysg Gymraeg i sefydlu darpariaeth o'r fath ym Mhorthcawl. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol y byddai'r cynnig yn helpu i gefnogi twf y Gymraeg ym Mhorthcawl. Cwestiynodd yr Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol y tebygolrwydd y byddai cais am gyllid grant yn llwyddiannus. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chefnogaeth i Deuluoedd fod Llywodraeth Cymru yn gefnogol i'r cynigion a bod y Swyddogion yn gweithio gyda Rhieni dros Addysg Gymraeg a oedd yr un mor gefnogol i'r cynnig i sefydlu egin ysgol ym Mhorthcawl.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn rhoi cymeradwyaeth ar gyfer datganiad o ddi-ddordeb i'w gyflwyno i LIC ynghylch Grant Cyfalaf cyfrwng Gymraeg er mwyn creu egin ysgol Gymraeg yn ardal Porthcawl.

707. **ATAL RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACTAU'R CYNGOR A DYFARNU CONTRACT AR GYFER GWASANAETHAU PARTNERIAETH RHIENI**

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chefnogaeth i Deuluoedd am gymeradwyaeth i barhau i ddarparu'r gwasanaeth partneriaeth rhieni presennol, er mwyn caniatáu i broses dendro cwynion lawn ddigwydd, gan gynnwys cyfnod mobileiddio digonol; atal y rhannau perthnasol o reolau gweithdrefn contractau'r Cyngor mewn perthynas â'r gofyniad i ail-dendro'r contract y manylir arno yn yr adroddiad hwn; ac awdurdodi'r Rheolwr Grŵp (Cymorth i Ddysgwyr) i ymrwymo i gontract tymor byr gyda'r darparwr presennol.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chefnogaeth i Deuluoedd fod y Cyngor, yn dilyn ymarfer tendro, wedi ymrwymo i gontract gyda SNAP Cymru ar gyfer gwasanaethau partneriaeth rhieni. Comisiynwyd y contract o 1 Mai 2018 am gyfnod cychwynnol o flwyddyn, gydag opsiwn i ymestyn am flwyddyn arall hyd at ddwy flynedd. Daeth y contract presennol mewn perthynas â'r gwasanaeth partneriaeth rhieni i ben ar 31 Mawrth 2021. Er nad oedd contract ar waith, mae'r contractwr wedi parhau i ddarparu'r Gwasanaeth. Dywedodd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor, o dan ei Reolau Gweithdrefn Contractau a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, ail-dendro ar gyfer darparwyr gwasanaeth newydd gydag ymarfer caffael cystadleuol.

Dywedodd fod y ddarpariaeth gwasanaeth gyfredol wedi'i hadolygu, gyda monitro perfformiad yn cael ei wneud i gasglu data ansoddol a meintiol ynghylch anghenion cleientiaid, y galw am wasanaeth a'r canlyniadau a gyflawnwyd. Dywedodd y gellid dangos yn glir yr effaith gadarnhaol ar y bartneriaeth â rhieni a bod ymgysylltu a chyfathrebu wedi digwydd rhwng y Cyngor a deiliad y contract presennol i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn gallu diwallu anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ddigonol.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:

- cymeradwyo parhau darparu'r gwasanaeth partneriaeth rhieni presennol, er mwyn caniatáu i broses dendro cwynion gael ei chynnal yn llawn;
- atal rhannau perthnasol CPR y Cyngor mewn perthynas â'r gofyniad ynghylch ail-dendro'r contract arfaethedig; a
- awdurdodi'r Rheolwr Grŵp (Cymorth i Ddysgwyr) i ymrwymo i gontract ar gyfer darparu'r gwasanaeth partneriaeth rhieni tan 31 Rhagfyr 2021.

708. CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chefnogaeth i Deuluoedd am gymeradwyaeth i ymgynghori â rhanddeiliaid ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg o 27 Medi 2021 am gyfnod o ddeuddeg wythnos. Bydd ei ganlyniad yn cael ei adrodd yn ôl i'r Cabinet ar ôl cau'r ymgynghoriad.

Adroddodd fod Adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Pwrpas y rheoliadau yw gwella cyfleoedd i awdurdodau lleol gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg er mwyn cefnogi'r disgwyliad presennol ac yn y dyfodol ar gyfer twf mewn addysg Gymraeg. Dywedodd fod yn rhaid i'r Cynllun gynnwys cynigion awdurdod lleol ar sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg i wella cynllunio'r ddarpariaeth addysg Gymraeg ("addysg Gymraeg") yn ei ardal; gwella safonau addysg Gymraeg ac addysgu'r Gymraeg yn ei ardal. Targedau'r awdurdod lleol ar gyfer gwella cynllunio'r ddarpariaeth o addysg Gymraeg yn ei ardal ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno ac addysgu'r Gymraeg yn ei ardal; ac adrodd ar y cynnydd a wnaed i gyflawni'r targedau a gynhwyswyd yn y Cynllun blaenorol neu'r Cynllun diwygiedig blaenorol.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chefnogaeth i Deuluoedd fod canllawiau newydd ar gyfer y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi'u cyhoeddi ym mis Awst 2016. Erbyn hyn roedd a bwriad clir i gysylltu gwaith y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg â Safonau'r Gymraeg ac i yrru awdurdodau lleol tuag at nod datganedig Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Dywedodd fod yn rhaid cyflwyno'r cynllun i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo erbyn 31 Ionawr, 2022 ac y bydd y Cynllun deng mlynedd cyntaf yn cychwyn ar 1 Medi 2022, gan ddod i ben ar 31 Awst 2032. Bydd pob Cynllun pellach yn cychwyn ar 1 Medi yn y flwyddyn y bydd y Cynllun deng mlynedd blaenorol yn dod i ben a rhaid iddo gynnwys targed yn amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod oes y Cynllun.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, wrth ganmol yr ymgynghoriad ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft, yn gobeithio y byddai nifer yn cyfrannu ato ac roedd yn edrych ymlaen at weld canlyniad yr ymgynghoriad.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:
• nodi cynnwys y cynllun drafft; a rhoi cymeradwyaeth i ymgynghori.

709. PENODI LLYWODRAETHWYR O'R AWDURDOD LLEOL

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chefnogaeth i Deuluoedd am gymeradwyaeth i benodi llywodraethwyr o'r awdurdod lleol i gyrrff llywodraethu'r ysgolion a restrir ym mharagraff 4.1 yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r penodiadau a restrir ym mharagraff 4.1.

710. STRATEGAETH GAFFAEL DDIWYGIEDIG SY'N GYFRIFOL YN GYMDEITHASOL, MABWYSIADU'R DATGANIAD CAETHWASIAETH FODERN A DIWEDDARIAD AR YR YMATEB I ARGYMHELLION YR ADRODDIAD CAFFAEL LLESANT YNG NGHYMRU

Gofynnodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio am gymeradwyaeth i fabwysiadu'r Strategaeth Gaffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol a'r Datganiad Caethwasiaeth Fodern i ddod i rym ar 1 Hydref 2021 a diweddarau'r Aelodau

ar yr ymateb i argymhellion y Caffael Llesiant yng Nghymru - Adroddiad Adolygiad Caffael Adran 20 Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol.

Hysbysodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio y Cabinet fod y Cyngor yn darparu ei wasanaethau yn uniongyrchol trwy ei weithlu ei hun, sefydliadau preifat a thrydydd sector, gan wario dros £186 miliwn y flwyddyn a bod ganddo gyfrifoldeb i reoli arian cyhoeddus gyda chywirdeb, er mwyn sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni a'i reoli yn y fath fodd fel y gall gefnogi amcanion ehangach y Cyngor. Er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldeb a chyflawni amcanion y Cyngor, mae angen Strategaeth Gaffael a Chynllun Darparu.

Adroddodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio fod y Strategaeth Gaffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol yn adeiladu ar y strategaeth gaffael flaenorol a sefydlodd fabwysiadu rheolaeth categori i wella perfformiad caffael ar draws y Cyngor. Roedd yn nodi blaenoriaethau caffael allweddol y Cyngor hyd at 2024 a'r newidiadau allweddol y bydd yn eu gwneud i wella rheolaeth ei wariant allanol ar nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Roedd y Strategaeth yn canolbwyntio ar gyflawni saith Amcan Caffael Sefydliadol cyffredinol eang ac roedd wedi ei llywio gan Gynllun Corfforaethol, deddfwriaeth a pholisi Llywodraeth Cymru a'r DU gan gynnwys Datganiad Polisi Caffael Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Mesur Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus drafft (2021). Dywedodd fod y Strategaeth yn rhoi mwy o bwyslais ar gyflawni amcanion llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sy'n ymwneud â chaffael blaengar, megis yr Economi Sylfaenol a Chylchol, ac atal newid yn yr hinsawdd trwy flaenoriaethu lleihau carbon ac allyriadau sero trwy gaffael mwy cyfrifol a chynaliadwy.

Adroddodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio hefyd y bydd y Cyngor yn cyhoeddi Datganiad Caethwasiaeth Fodern flynyddol yn nodi ei ymrwymadau i sicrhau nad oes gan gaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl le yn y cadwyni busnes a chyflenwi. Dywedodd fod y Datganiad yn nodi'r ymrwymadau y mae'r Cyngor yn eu gwneud i reoli a lleihau'r risg y bydd caethwasiaeth neu fasnachu pobl yn digwydd o fewn gweithrediadau o ddydd i ddydd.

Hysbysodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio y Cabinet fod y Cyngor ym mis Mawrth 2020 yn un o naw corff sector cyhoeddus a gymerodd ran yn Caffael Llesiant yng Nghymru - Adolygiad Caffael Adran 20 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Roedd y Comisiynydd wedi tynnu sylw at rai meysydd cryf, ynghyd â chyfleoedd pellach i ddatblygu, wrth ystyried cyfraniad y Cyngor at y saith nod llesiant ac amcanion lles sefydliadol a defnyddio'r pum ffordd o weithio i feddwl yn wahanol am y dull o gaffael. Roedd y Comisiynydd wedi nodi cryfder allweddol y Cyngor, sef y dull tymor hir o weithio ar y cyd â'r timau comisiynu, gan ystyried y canlyniadau y gall caffael eu cyflawni. Hysbysodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio y Cabinet fod cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu i weithredu prif argymhellion yr adroddiad.

Croesawodd y Dirprwy Arweinydd, wrth ganmol yr adroddiad, yr ymrwymadau cytundebol newydd ac y byddai'n rhan o'r broses monitro contractau a sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau. Roedd yn edrych ymlaen at weld y cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith. Roedd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn falch iawn o weld bod y Cyngor yn gosod y cyflymder wrth gaffael gan fod gan y Cyngor gyfrifoldeb i helpu gyda lles cymunedol ac mae'n atgyfnerthu'r economi sylfaen, gan roi'r gallu i fusnesau gystadlu.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:

- (i) cymeradwyo a mabwysiadu'r Strategaeth Caffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol ddiwygiedig sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad i ddod i rym ar 1 Hydref 2021;
- (ii) cymeradwyo a mabwysiadu'r Datganiad Caethwasiaeth Fodern sydd ynghlwm yn Atodiad 2 i'r adroddiad i ddod i rym ar 1 Hydref 2021;
- (iii) dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio i gynnal adolygiad blynyddol o'r Datganiad Caethwasiaeth Fodern, gwneud diwygiadau i'r datganiad hwnnw fel y bo'n briodol a chyhoeddi'r Datganiad Caethwasiaeth Fodern bob blwyddyn ariannol yn ôl yr angen;
- (iv) nodi'r ymatebion i argymhellion yr Adroddiad Caffael Llesiant yng Nghymru fel yr amlinellir yn Adran 4.10 yr adroddiad.

711. RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACTAU DIWYGIEDIG

Gofynnodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio am gymeradwyaeth i Reolau Gweithdrefn Contractau diwygiedig ddod i rym o 1 Hydref 2021; i Gynllun Dirprwyo Swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â Swyddogaethau Gweithredol gael ei ddiwygio yn unol â pharagraff 4.17 o'r adroddiad; ac y byddai adroddiad yn cael ei ddwyn i'r Cyngor i ddiwygio'r Cyfansoddiad i ymgorffori'r Rheolau Gweithdrefn Contractau diwygiedig a'r diwygiadau i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau mewn perthynas â swyddogaethau'r Cyngor.

Adroddodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio ei bod yn ofynnol i'r Cyngor adolygu'r Rheolau Gweithdrefn Contractau, sy'n rhan o Gyfansoddiad y Cyngor, yn rheolaidd. Mae'r Rheolau Gweithdrefn Contractau'n cynnwys y rheolau a'r canllawiau ar gyfer caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith ac fe'u cynlluniwyd i sicrhau cydymffurfiaid â chyfraith y DU ac Ewrop, sicrhau bod arfer gorau yn cael ei ddilyn a sicrhau'r gwerth gorau wrth ddefnyddio arian cyhoeddus. Yn dilyn yr adolygiad, gwnaed nifer o newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Contractau presennol i sicrhau bod y Cyngor yn moderneiddio'r ffordd y mae'n caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith.

Gofynnodd yr Arweinydd, pan fyddai dogfennau a oedd gynt wedi'u selio gan Aelodau, yn cael eu rhannu i'r deiliaid swyddi perthnasol gan Swyddogion.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn:

- (i) cymeradwyo'r Rheolau Gweithdrefn Contractau diwygiedig sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad i ddod i rym ar 1 Hydref 2021;
- (ii) cymeradwyo'r diwygiadau i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau mewn perthynas â swyddogaethau Gweithredol fel y'u nodir ym mharagraff 4.17 yr adroddiad;
- (iii) Nodi y bydd adroddiad yn cael ei ddwyn i'r Cyngor i ddiwygio'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau mewn perthynas â swyddogaethau'r Cyngor ac i ddiwygio'r Cyfansoddiad i ymgorffori'r diwygiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Contractau.
- (iv) cymeradwyo bod dogfennau a arferai fod angen eu selio yn cael eu rhannu â deiliaid y swydd er gwybodaeth.

712. EITEMAU BRYD

Nid oedd eitemau bryd.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:25